



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl:	Prif Swyddog Cefnogi Cyflogwyr - Cymraeg Gwaith
Cyfeirnod Swydd:	00969a & 00969b
Math o gontract/Oriau/CALI:	a). Llawn amser (37 awr yr wythnos, 1.0 CALI) b). Rhan amser (18.5 awr yr wythnos, 0.5 CALI) Cyfnod Penodol tan 31 Mawrth 2020 (gydag ymestyn yn bosibl yn ddibynnol ar y cyllid a ddaw i'r Ganolfan)
Graddfa/ Cyflog:	Gradd 6 / £30,395 - £34,189 pro rata y flwyddyn
Lleoliad:	Caerfyrddin (Ystyrir lleoli gydag un o'r darparwyr Dysgu Cymraeg ar draws Cymru os yn briodol)
Yn adrodd wrth:	Rheolwr Prosiectau y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cynllunio a monitro pob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg i oedolion – o lunio cyrsiau ac adnoddau i hyfforddiant tiwtoriaid, ymchwil a data, marchnata a chyfathrebu.

Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda rhwydwaith o ddarparwyr, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan mewn cymunedau ledled Cymru. Mae cyrsiau ar gael ar wahanol lefelau: Mynediad (ar gyfer dechreuwyr), Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd, sydd ar gael i siaradwyr rhugl hefyd.

Mae strwythur y Ganolfan wedi ei rannu i dair cyfarwyddiaeth, sef:

- Cyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu
- Cyfarwyddiaeth Datblygu a Chynllunio
- Cyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu

Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chartrefu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Am fwy o fanylion, darllenwch [Adroddiad Blynyddol](#) diweddaraf y Ganolfan.

Ers 1 Ebrill 2017, mae'r Ganolfan wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i sefydlu a gweithredu Cynllun '[Cymraeg Gwaith](#)' sydd yn cynnig rhaglen lawn o gyngor a chefnogaeth i gyflogwyr ar sut i gynorthwyo gweithwyr i ddysgu'r Gymraeg, ynghyd â rhaglen hyfforddiant sydd yn cynnwys elfennau ar-lein a wyneb yn wyneb. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain o fewn y Gyfarwyddiaeth Datblygu a Chynllunio.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Cefnogi Cyflogwyr i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle, gan ddefnyddio cynlluniau Cymraeg Gwaith y Ganolfan.
- Sefydlu cynllun i gysylltu â chyflogwyr a dysgwyr yn ystod, ac ar ddiwedd eu cyrsiau Cymraeg Gwaith, er mwyn annog cwblhau eu cyrsiau, cymryd perchnogaeth am sicrhau defnydd o'r sgiliau iaith Gymraeg ymysg y gweithlu a/neu gyfeirio ddysgwyr at ddarpariaeth ddilynol berthnasol. Bydd targedau penodol ar gyfer y cynllun, gan gynnwys y nifer o gyflogwyr a dysgwyr i'w targedu, i'w cytuno yn flynyddol.

- Cynorthwyo cyflogwyr sy'n ymrwymo i hyfforddi staff trwy'r cynllun Cymraeg Gwaith i gynllunio'n strategol o ran dewis y staff priodol i fynychu'r hyfforddiant a bod cysondeb o ran lefel sgiliau iaith y dysgwyr.
- Cynorthwyo cyflogwyr sy'n ymrwymo i hyfforddi staff trwy'r cynllun Cymraeg Gwaith i gyflwyno cynlluniau cefnogi a mentora yn y gweithle er mwyn sicrhau defnydd sgiliau iaith Gymraeg gan ddysgwyr yn dilyn y cyrsiau.
- Cynorthwyo'r cyflogwyr i gynllunio i ryddhau neu dargedu unigolion mewn modd pwrpasol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar allu sefydliadau i gyflenwi rhagor o wasanaethau dwyieithog.
- Gweithredu fel ymgynghorydd i'r cyflogwyr er mwyn sicrhau bod sgiliau newydd eu gweithlu yn cael ei defnyddio yn briodol.
- Datblygu adnoddau i gefnogi Cyflogwyr a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Dadansoddi cyflawniad cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith a chyd-weithio gyda chyflogwyr i annog gweithwyr i gwblhau'r cwrs a pharhau i ddysgu Cymraeg wedi hynny.
- Casglu ystod o enghreifftiau o arferion da a sefydlu rhwydwaith i gyfathrebu gyda chyflogwyr a rhannu arfer dda.
- Cynllunio ar y cyd gyda'r cyflogwyr i sicrhau patrwm o barhau i ddysgu Cymraeg.
- Paratoi adroddiadau sy'n adrodd ar dargedau a chyflawniad y gwaith yn rheolaidd.
- Cydweithio gyda tîm Cynllunio a Datblygu y Ganolfan i sicrhau bod holl waith y Ganolfan yn gydlynus, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd tîm.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gydnaws ac yn gymesur â'r swydd yn unol â dymuniad Rheolwr y Cynllun Cymraeg Gwaith.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyflawni pob cyfrifoldeb perthnasol o ran lechyd a Diogelwch.
- Glynu wrth holl bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol.
- Bod yn barod i addasu i newid a meddu ar y gallu i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd a pherthnasol trwy gymryd cyfrifoldeb priodol am eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun.
- Cefnogi a hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd a chyflawni dyletswyddau mewn modd moesegol a chyfrifol.
- Gweithredu'n unol â'r safonau a ymgorfforir yn y Safonau Iaith Gymraeg a bennwyd ar gyfer y Brifysgol.

D.S. Hwn yw'r disgrifiad swydd sy'n gymwys ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y neilltuir dyletswyddau o bryd i'w gilydd sy'n briodol i'r raddfa a'r swydd nad ydynt o natur sylweddol barhaus i effeithio ar raddfa'r swydd.

MANYLEB YR UNIGOLYN		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau	a) Gradd mewn disgyblaeth berthnasol (neu'r profiad proffesiynol cyfwerth)	
Profiad, Galluedd a Sgiliau	b) Profiad o gydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o randdeiliaid c) Profiad o gyfathrebu yn effeithiol gydag ystod o randdeiliaid d) Profiad o weithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill e) Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig f) Y gallu i gyflawni gwaith yn erbyn terfynau amser tynn g) Meddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu lefel uchel gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel. h) Y gallu i ddarparu arweiniad a chyngor o fewn y maes arbenigol i) Meddu ar sgiliau trefnu effeithiol ac effeithlon j) Meddu ar sgiliau cyflwyno effeithiol	k) Profiad o ddefnyddio technegau ar-lein fel adnodd hyrwyddo ac ymgysylltu l) Profiad o fentora / darparu cyngor m) Profiad o faes Dysgu Cymraeg neu addysg Uwch / Bellach
Gofynion eraill	n) Barod i deithio i fodloni gofynion sy'n ymwneud â'r swydd ac i weithio o amrywiol leoliadau pan fo angen o) Gallu gweithio'n hyblyg ac yn barod i wneud hynny	

Er eich lles eich hun, dylech nodi'n fanwl yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol, (o'r gweithle, gwaith gwirfoddol neu waith yn y gymuned, neu unrhyw sefyllfa briodol arall) fel y gall y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer weld yn glir ble mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.